# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 26 Ionawr 2023**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Huw Jones

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Dyfrig Jones.

**Ymddiheuriadau** – dim.

**2. Datgan Diddordeb**
Adroddwyd fod y Cyng. Linda Brown wedi dechrau ei swydd gyda Partneriaeth Ogwen.

**3. Materion Brys**
**3.1 Sedd Wag** – Y Clerc i hysbysebu'r sedd wag cyn gynted a phosib.
**3.2 Wifi Gorffwysfan** – Y Clerc i drefnu i gael cyswllt Wifi yn y Gorffwysfan.
**3.3 Clwb Cysur –** Derbyniwyd cais gan y Parchedig Sara Roberts i ddefnyddio'r Gorffwysfan ar gyfer Clwb Cysur – penderfynodd y Cyngor eu bod yn hapus iddynt defnyddio'r Gorffwysfan yn ystod amser Croeso Cynnes.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 YGC – Sherpa Shelters** – Y Clerc wedi holi os oes bosib gosod y sgrin gyda'r amserlen yn y lloches metel presennol ger yr Hen Bost. Y Clerc i gael diweddariad.
**5.2 Siop Penrhyn Pictures** - Y Clerc i fynd draw am sgwrs gyda'r perchnogion ynglyn a'r arwydd uniaith Saesneg.
**5.3 Golau Stryd Llidiart y Gwenyn** – Y Clerc yn cyfarfod gyda Colin Worth, Cyngor Gwynedd ar y 27ain o Ionawr 2023.

**5.4 'Parallel Bars' ar gyfer Cae Chwarae Rachub** – y Clerc wedi cael pris gan G L Jones am offer tebyg. Y Clerc i holi cwmniau eraill am dyfynbrisiau ac yna trefnu cyfarfod gyda'r Is-bwyllgor.
**5.5 Lloches Bws Lon Newydd** – Y Clerc wedi cyfarfod â Dafydd Hughes, Cyngor Gwynedd ar y safle, a chytunwyd fod y lleoliad yn addas. Y Clerc i archebu lloches ac i drefnu i gontractwr lleol greu sylfaen concrit ac i osod.
**5.6 Goleuadau Nadolig** – y Clerc i cysylltu â Cyngor Gwynedd i ofyn i'r adran Goleuo Stryd i gwblhau'r gwaith gosod bracedi a bocsus newydd ar gyfer y goleuadau nadolig.
**5.7 Cae Chwarae Pantdreiniog –** Cadarnhawyd y bydd y contractwr D E Williams yn cwblhau'r gwaith rhisgl ymhen ryw bythefnos.

**6. CCTV Stryd Fawr**
Cylchredwyd dyfynbris diweddar ar gyfer y sustem a'i gosod, penderfynwyd derbyn y dyfynbris. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt fwrw ymlaen gyda'r cynllun cyn gynted a phosib.

**7. Archeb 2023-24**
Penderfynwyd ar yr archeb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £108,322.00. Y Clerc i anfon y ffurflen at Cyngor Gwynedd.

**8. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Y Clerc i longyfarch Meleri a'r staff i gyd am ei llwyddiannau fel a nodwyd yn yr adroddiad, anhygoel faint o waith sydd wedi gael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn.

**9. Maes parcio Gerlan**
Dim diweddariad.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ionawr 2023'
**9.1** Partneriaeth Ogwen – Cytundeb Clercio a Datblygu Cymunedol – Penderfynwyd derbyn y cytundeb newydd.
**9.2** Cyng. Rheinallt Puw – Carnifal Bethesda - Penderfynwyd cefnogi trefniadau cau'r ffordd ar 20 Mai 2023.
**9.3** Karen Roberts – Problemau parcio Ffordd Carneddi – nodwyd nid oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw pwerau i datrys y broblem hwn, y Clerc i ddanfon yr ohebiaeth ymlaen at yr adran priffyrdd ac i gynnwys y Cyng. Einir Williams.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
<u>**Penderfyniadau**</u>

| | |
|---|---|
| **C22/0256/13/LL**<br>Brig y Nant, Lon Newydd Coetmor | Codi 18 tŷ, ffordd newydd a thirlunio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0811/13/LL**<br>Clwb Pel Droed, Bethesda | Adeiladu maes hyfforddi pob tywydd 3G gyda ffensys a goleuadau cysylltiedig.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**C22/1055/13/DT**
5 Rhes Victoria, Bethesda

Newid defnydd o uned manwerthu i ofod byw domestig
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/1054/13/AC**
88 Ffordd Carneddi, Carneddi

Cais i ddiwygio amod 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) o ganiatâd cynllunio C19/0546/13/LL ar gyfer codi tŷ newydd er mwyn caniatáu diwygiadau i'r dyluniad a gosodiad.
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/1101/13/HY**
Tesco Express, Bethesda

Gosod hysbysebion wedi eu goleuo ac heb eu goleuo.
**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**<u>Ceisiadau</u>**

**C22/1039/13/DT**
1 Rallt Uchaf, Gerlan

Codi porth mynediad blaen newydd a modurdy ar ochr yr eiddo
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**C23/0012/13/DT**
38 Erw Lâs, Bethesda

Estyniad arfaethedig i gefn, ochr ac blaen yr eiddo yn ogystal a newidiadau parcio ac mynediad i gerbydau.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**C22/0811/13/LL**
Clwb Pel Droed, High Street,

Adeiladu maes hyfforddi pob tywydd 3G gyda ffensys a goleuadau cysylltiedig.
**Penderfyniad:**

**11. Taliadau**

| | | |
|---|---|---|
| Opus Energy | Trydan Llys Dafydd | £84.56 |
| Partneriaeth Ogwen | Torch Sul y Cofio | £20.00 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £336.12 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Gosod a tynnu goleuadau Nadolig | £1665.00 |
| Dwr Cymru | Dwr Gorffwysfan | £74.74 |
| Llais Ogwan | Hysbyseb Rhoddion | £27.00 |
| Dwr Cymru | Llys Dafydd | £22.34 |
| Scottish Power | Trydan Gorffwysfan | £178.12 |
| John Wyn Jones | Cyflog Ionawr 2023 | £358.20 |
| CThEM | Treth | £89.60 |